Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni Prydain Fawr

Medi 2024

Ar 17 Medi 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ynni Prydain Fawr.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 15 Tachwedd 2024.